Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Hysbysiad hwylus

## Hyblygrwydd diwedd blwyddyn

Mawrth 2009

## Cyflwyniad

Pennir cynlluniau gwariant tair blynedd ar gyfer terfynau gwariant adrannol (DEL)[1] i adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig, a hynny fel rhan o'r broses Adolygu Gwariant. **Mae hyblygrwydd diwedd blwyddyn (EYF) yn galluogi adrannau a gweinyddiaethau datganoledig i drosglwyddo rhywfaint o'r DEL sydd heb ei wario a'i ddefnyddio yn y blynyddoedd ariannol dilynol.** Mae hyn yn osgoi'r brys i wario'r cyfan erbyn diwedd y flwyddyn (sef, yr egwyddor *'ei ddefnyddio neu'i golli'*), gan nad yw hon yn ffordd effeithiol o sicrhau gwerth am arian.

Cyflwynwyd y trefniadau EYF cyfredol ym 1997. Roedd systemau rheolaeth ariannol blaenorol ar gyfer EYF yn llawer mwy cyfyngedig a llai agored. Roeddent yn tueddi i annog defnyddio'r holl adnoddau yn ystod y flwyddyn ariannol, waeth beth oedd yr angen am wariant o'r fath a neu'r pwysau cyllidebol posibl yn y dyfodol. Mae'r trefniadau presennol, nad ydynt yn gosod cyfyngiad ar swm y DEL y mae modd ei gario drosodd fel EYF, wedi'u cynllunio i hwyluso rheoli DEL yn effeithiol dros nifer o flynyddoedd.

## Cyfrifo a defnyddio hyblygrwydd diwedd blwyddyn

Nodir y rheolau ynglŷn â chyfrifo a defnyddio EYF ym mhennod 14 o'r ddogfen C*onsoliodated Budgeting Guidance*[2] gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Dywed y canllawiau:

- Nad oes cyfyngiad ar faint o DEL sydd heb ei wario y mae modd ei ddwyn ymlaen fel EYF
- Bod pob gwariant ac incwm o fewn DEL yn gymwys ar gyfer ei ddwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf os yw'n parhau heb ei wario.
- Caiff unrhyw hawliadau o ran EYF sy'n deillio o un blwyddyn benodol neu sydd wedi cronni o flynyddoedd blaenorol a heb eu ddefnyddio eu trosglwyddo'n awtomatig.[3]
- Bod rhaid cael cytundeb Trysorlys Ei Mawrhydi er mwyn gweithredu trefn dwyn ymlaen

[1] **Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** – wedi'u pennu dros gyfnod o dair blynedd fel arfer fel rhan o broses Adolygu Gwariant Llywodraeth y DU. Mae'r rhan fwyaf o'r Terfynau Gwariant Adrannol heb eu neilltuo ac maent yn rhoi hawl i'r gweinyddiaethau datganoledig ddewis eu blaenoriaethau gwariant (a elwir yn eitemau 'cyllideb wedi'i glustnodi'). Caiff newidiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer yr eitemau hyn eu pennu drwy fformiwla Barnett. Mae rhai elfennau o'r Terfyn Gwariant Adrannol, fodd bynnag, wedi'u neilltuo ac ni ellir eu defnyddio ond ar gyfer dibenion penodol.
[2] **Trysorlys Ei Mawrhydi, *Consolidated Budgeting Guidance 2009-10* (Chwefror 2009)** [ar 24 Chwefror 2009].
[3] Fodd bynnag mae'r Trysorlys yn cadw'r hawl i ystyried unrhyw gronni gormodol mewn adolygiadau gwariant dilynol, fel y nodir yn **Trysorlys Ei Mawrhydi. Public Expenditure System (2000) 25. Cascading End-Year Flexibility (18 Hydref 2000)**.

EYF a bydd yn destun prosesau craffu arferol y Trysorlys. Ni ddylai cynlluniau gwariant adrannau dybio y bydd EYF ar gael oni bai fod hynny wedi'i gytuno'n benodol gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

- Fel arfer, trwy Amcangyfrifon Atodol y caiff arian EYF ei ddefnyddio.[4]
- Os yw adran yn cael DEL ychwanegol o ganlyniad i gais mewn perthynas â Chronfa wrth Gefn y DU, bydd y ddarpariaeth ychwanegol fel arfer yn cael ei hadennill o unrhyw danwariant sy'n deillio yn y flwyddyn honno neu mewn blynyddoedd i ddod. Bydd hyn yn digwydd drwy ostyngiad yn yr hawl i EYF.

Mae canllawiau manwl ar gyfrifo EYF wedi'u cynnwys yn y papur *Public Expenditure System* a gynhyrchir gan Drysorlys Ei Mawrhydi sy'n rhestru'r holl geisiadau am EYF.[5]

## Rhaeadru hyblygrwydd diwedd blwyddyn

Mae Pennod 14 o'r ddogfen *Consolidated Budgeting Guidance*[6] gan Drysorlys Ei Mawrhydi, yn nodi:

> Departments are encouraged to cascade EYF entitlements to their NDPBs[7] and Agencies wherever practicable. Cascading ensures that the incentives EYF brings to manage resources to best effect are applied to lower level budget holders also.
>
> …EYF policy at a departmental level should give delegated budget holders more certainty and better incentives, while recognising the need for departments to manage their DEL as a whole.

Mae rhagor o ganllawiau ar raeadru EYF i'w gweld yn y ddogfen *Cascading End Year Flexibility*,[8] *PES* Trysorlys Ei Mawrhydi (2000) 25.

## Categorïau o hyblygrwydd diwedd blwyddyn a chyfyngiadau

Mae EYF yn deillio o DEL sydd heb ei wario, ac felly caiff y symiau a gaiff eu dwyn ymlaen eu rhannu i arian refeniw ac arian cyfalaf. Gan fod arian refeniw'r DEL yn cynnwys elfennau 'bron yn arian parod'[9] ac elfennau 'heb fod yn arian parod'[10], mae modd rhannu'r gyfran

---

[4] Mae **Amcangyfrifon Atodol** yn ffordd o ofyn am ganiatâd Senedd y DU am wariant ychwanegol i'r hyn a geisiwyd yn y Prif Amcangyfrifon ar gyfer yr un flwyddyn ariannol. Fel arfer, ceir dau amcangyfrif atodol, un yn y gaeaf (mis Tachwedd fel arfer) ac un yn y gwanwyn (mis Chwefror fel arfer).

[5] Y diweddaraf o'r papurau PES yw : **HM Treasury, PES(2008) 07, *Public Expenditure 2007-08: Publication of provisional outturn and 2008-09 DEL end year flexibility (EYF) entitlements* (22 Mai 2008)** .

[6] **Trysorlys Ei Mawrhydi, *Consolidated Budgeting Guidance 2009-10* (Chwefror 2009)** [ar 24 Chwefror 2009].

[7] **Cyrff Cyhoeddus Anadrannol (NDPBs)** – Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad yw'r rhain yng Nghymru.

[8] **Trysorlys Ei Mawrhydi. Public Expenditure System (2000) 25. Cascading End-Year Flexibility (18 Hydref 2000)** [ar 24 Chwefror 2009].

[9] Mae **bron yn arian parod** yn gyfanswm rheoli a ddefnyddir gan y Trysorlys; fe'i diffinir fel mesur croniadol o drafodion sydd fel arfer yn troi'n llif arian yn fuan. Prif elfennau 'bron yn arian parod' yw cyflogau, caffael cyfredol ac ati. Nid yw 'bron yn arian parod' yn cynnwys costau 'heb fod yn arian parod'.

[10] Mae **heb fod yn arian parod** yn cyfeirio at gostau nad ydynt yn cael eu cynrychioli gan drafodion arian parod. Mae'r eitemau hyn wedi'u cynnwys mewn cyllidebau er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn adlewyrchu cost economaidd cyflawn gweithgareddau, hyd yn oed os nad oes cysylltiad uniongyrchol â llif arian yn y cyfnod dan sylw. Bydd y rhain naill ai byth yn gofyn am daliad arian (ee dibrisio a chost taliadau cyfalaf ), neu byddant yn arwain at daliadau arian parod yn unig mewn blynyddoedd dilynol (ee darpariaethau). Caiff adrannau symud o 'heb fod yn arian parod' i 'bron yn arian parod' o fewn y DEL adnoddau yn unol â gweithdrefnau Trysorlys Ei Mawrhydi a nodir ym Mhennod 1 a 5 o ***Consolidated Budgeting Guidance*** Trysorlys Ei Mawrhydi. Yn fyr, caiff adrannau ryddid i newid darpariaeth o 'bron yn arian parod'i 'heb fod yn arian parod' o fewn DEL. Fodd bynnag, rhaid cydymffurfio â gweithdrefnau Trysorlys Ei

refeniw o EYF yn yr un ffordd. Mae'r ddogfen *Consolidated Budgeting Guidance*[11] yn nodi'r cyfyngiadau a ganlyn ar ddefnyddio EYF:

- Dim ond ar raglenni cyfalaf y mae modd defnyddio EYF DEL cyfalaf.
- Nid oes modd defnyddio EYF DEL refeniw sy'n deillio o wariant 'heb fod yn arian parod' ar gyfer DEL refeniw sydd 'bron yn arian parod' nac ar gyfer DEL cyfalaf, ac eithrio fel y nodir yn y rheolau.[12]
- Mae modd defnyddio EYF DEL refeniw sydd 'bron yn arian parod' mewn cyllidebau cyfalaf, neu gyllidebau 'heb fod yn arian parod', yn ogystal â mewn cyllidebau sydd 'bron yn arian parod'.
- Ni ellir symud EYF o un categori er mwyn cynhyrchu EYF mewn categori gwahanol.

Caiff manylion lefelau EYF ar gyfer pob gweinyddiaeth ddatganoledig ac adran o Lywodraeth y DU eu cyhoeddi bob mis Gorffennaf gan Drysorlys Ei Mawrhydi yn y Papur Gwyn, sef *Public Expenditure Outturn* (PEOWP).[13] Er mwyn adlewyrchu'r cyfyngiadau a nodir uchod, mae'r hawliau EYF a gyhoeddir yn PEOWP yn gwahaniaethau rhwng DEL refeniw (sy'n cynnwys elfennau 'bron yn arian parod') a DEL cyfalaf.

## Hyblygrwydd diwedd blwyddyn yng Nghymru

Yn ôl y ffigurau diweddaraf, cadwodd Trysorlys Ei Mawrhydi gyfanswm o **£900 miliwn** o arian EYF ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru **ar ddiwedd 2007-08**[13]. O'r cyfanswm o £900m, mae £676m yn arian refeniw (£512m 'heb fod yn arian parod' a £164m 'bron yn arian parod') a £224m yn arian cyfalaf.

Mae amseriad, a'r defnydd o arian EYF a gaiff ei ddwyn ymlaen, yn rhywbeth y dylid cael cytundeb Trysorlys Ei Mawrhydi yn ei gylch. Nes bod Trysorlys Ei Mawrhydi wedi cytuno y caiff EYF sydd i'w ddwyn ymlaen ei ychwanegu at y DEL am y flwyddyn ariannol bresennol, nid oes modd dyrannu'r arian ymlaen llaw.

Mewn datganiad ysgrifenedig,[14] dywedodd Andrew Davies, y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus:

> Mae adnoddau sy'n cael eu dwyn ymlaen fel EYF yn dal i fod ar gael i'w defnyddio yng Nghymru. Arian a ddyrannwyd i Gymru yw'r stoc EYF sydd wedi cronni gennym. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn llwyr fwriadu ei ddefnyddio i wireddu ein blaenoriaethau yn

---

Mawrhydi er mwyn symud o'r naill drefniant i'r llall (mae modd trosglwyddo hyd at £20m, rhaid i bob trosglwyddiad arall gael ei gymeradwyo gan Drysorlys Ei Mawrhydi).

[11] **Trysorlys Ei Mawrhydi, *Consolidated Budgeting Guidance from 2009-10* (Chwefror 2009)** Pennod 14 Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn. [ar 24 Chwefror 2009].

[12] Fel y nodir ym Mhennod 1 ***Consolidated Budgeting Guidance from 2009-10* (Chwefror 2009)** Trysorlys Ei Mawrhydi. [ar 24 Chwefror 2009]. Yn fyr mae adrannau'n rhydd i gyfnewid darpariaeth o bron yn arian parod i heb fod yn arian parod o fewn DEL adnoddau. Fodd bynnag, rhaid cael cymeradwyaeth Trysorlys Ei Mawrhydi i gyfnewid o ddarpariaeth heb fod yn arian parod i ddarpariaeth bron yn arian parod.

[13] Trysorlys Ei Mawrhydi, Public Expenditure Outturn White Paper (Gorffennaf 2008) [ar 24 Chwefror 2009]. Dengys Tabl 6 yn y ddogfen hon yr hyblygrwydd diwedd blwyddyn DEL a gaiff ei ddwyn ymlaen .

[14] **Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies), *Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn Llywodraeth y Cynulliad*, Datganiad (Ysgrifenedig) y Cabinet, 10 Mawrth 2008.** [ar 24 Chwefror 2009].

Cymru'n Un yn y blynyddoedd sydd i ddod. Er enghraifft, caiff cyfalaf EYF ei ddefnyddio i gynorthwyo rhaglen fuddsoddi cyfalaf strategol Llywodraeth y Cynulliad yn ystod y tair blynedd nesaf.

Nid oes unrhyw arian EYF wedi'i drosglwyddo hyd yn hyn gan Drysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer 2008-09 (amcangyfrifon y gaeaf a'r gwanwyn sydd, fel arfer, yn cychwyn y broses hon).

Mae Adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2009-10,[15] Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi:

> Mae record wych gan Lywodraeth y Cynulliad o wario'n gyson agos at 99% o adnoddau TGA sydd bron yn arian parod - lefel sy'n well na'r rhan fwyaf o adrannau Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill.
>
> Caiff manylion am lefel yr HDB ar gyfer pob gweinyddiaeth ddatganoledig ac Adran Whitehall eu cyhoeddi bob Gorffennaf ym Mhapur Gwyn Alldro Gwariant Cyhoeddus y Trysorlys. Mae'r ffigurau'n dangos bod stoc HDB Cymru yn isel am fod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau'n gyson bod gwariant terfynol yn agos at gyfanswm TGA ar gyfer adnoddau sydd bron yn arian parod a chyfalaf.

Mae Tabl 1 yn nodi faint o EYF sydd wedi ei ddwyn ymlaen ar gyfer y tair gweinyddiaeth ddatganoledig yn 2007-08, fel y nodir yn PEOWP 2007-08.[16]

**Tabl 1: EYF DEL sydd wedi'i ddwyn ymlaen o 2007-08 i 2008-09**

**Ffynhonnell**: Trysorlys Ei Mawrhydi, Public Expenditure Outturn White Paper (Gorffennaf 2008)

Mae Atodiad 2 yr Adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2009-10,[15] yn dangos y stoc cyfredol a'r stoc hanesyddol o stoc cronnus o EYF Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r ffigurau'n wahanol i'r rhai sydd yn Nhabl 1 oherwydd y driniaeth o adnoddau sydd 'heb fod yn arian parod'. Cafodd hwn ei ail greu yn nhabl 2.

**Tabl 2: Stociau EYF cronnus fel yr oeddent ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol**

*£000s*

| | Refeniw | | Cyfalaf | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | Bron yn arian parod | Heb fod yn arian parod | | |
| **Llywodraeth Cynulliad Cymru** | 164,440 | 511,602 | 223,871 | **899,913** |
| **Gweithrediaeth yr Alban** | 762,365 | 119,144 | 70,773 | **952,282** |
| **Gweithrediaeth Gogledd Iwerddo** | 348,356 | 43,453 | 322,398 | **714,207** |

[15] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2009-10 (Hydref 2008) [ar 24 Chwefror 2009].
[16] Trysorlys Ei Mawrhydi, Public Expenditure Outturn White Paper (Gorff 2008). [ar 24 Chwefror 2009] Mae Tabl 6 yn y ddogfen hon yn dangos yr hyblygrwydd diwedd blwyddyn DEL a gaiff ei ddwyn ymlaen .

| Blwyddyn ariannol | £m | | |
|---|---|---|---|
| | Refeniw | Cyfalaf | Cyfanswm |
| 1999/00 | | | 234 |
| 2000/01 | | | 421 |
| 2001/02 | 377 | 1 | 378 |
| 2002/03 | 111 | 89 | 200 |
| 2003/04 | 237 | 51 | 288 |
| 2004/05 | 209 | 61 | 270 |
| 2005/06 | 122 | 66 | 188 |
| 2006/07 | 95 | 145 | 240 |
| 2007/08 | 164 | 224 | 388 |

**Nodiadau:**


- Mae'r ffigurau uchod yn adlewyrchu stociau EYF cronnus fel yr oeddent ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol.
- Y stoc EYF ar ddiwedd blwyddyn ariannol x = stoc EYF ar ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol – EYF a ddefnyddiwyd ym mlwyddyn ariannol x + y gwahaniaeth rhwng cyfanswm y DEL a'r alldro gwariant terfynol ym mlwyddyn ariannol x. Felly cyfanswm y stoc ar ddiwedd 2006-07 yw £240m, ychwanegiad net o £52m ar y stoc o £188m ar ddiwedd 2005-06.
- Nid yw'r rhaniadau cyfalaf / refeniw ar gyfer 1999/00 a 2000/01 ar gael gan nad oedd unrhyw raniad ffurfiol rhwng y symiau yn gymwys i Gymru ar y pryd.
- Cafodd cyllidebu ar gyfer adnoddau a'r cysyniad o adnoddau 'bron yn arian parod' ac adnoddau 'heb fod yn arian parod' eu cyhhwyso i Gymru yn 2003-04. Fodd bynnag, ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2003-04 a 2004-05, ni wahaniaethwyd rhwng adnoddau 'bron yn arian parod' ac adnoddau 'heb fod yn arian parod' at ddibenion EYF. Mae'r ffigurau ar gyfer y cyfnod 1999-00 i 2002-03 a 2005-06 ymlaen yn ffigurau arian parod yn unig.
- £237m oedd cost stociau EYF 'heb fod yn arian parod' yn 2005-06, £296m yn 2006-07 a £512m yn 2007-08.

## Hyblygrwydd diwedd blwyddyn a'r broses gyllidebol yng Nghymru

Ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, caiff yr amcangyfrif o arian alldro ei gynhyrchu er mwyn ei gynnwys yn y PEOWP, a gyhoeddir fel arfer gan Drysorlys Ei Mawrhydi ym mis Gorffennaf. Mae'r ffigyrau alldro hyn yn sail i gyfrifo'r hawliau EYF mewn perthynas â DEL. Darperir gwybodaeth ynghylch lefelau EYF i Senedd San Steffan. Fodd bynnag, cyn y gellir defnyddio EYF, rhaid cael caniatâd seneddol priodol i wneud hyn drwy'r broses Amcangyfrifon. Ni all hyn ddigwydd tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn, yn Amcangyfrifon Atodol y gaeaf neu'r gwanwyn. Felly, bydd Senedd San Steffan yn cael gwybod gan Drysorlys Ei Mawrhydi am EYF sy'n deillio o danwariant a nodwyd ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2007-08, sawl mis wedi dechrau'r flwyddyn ganlynol (tua mis Gorffennaf 2008). Nid oes modd defnyddio EYF gan adrannau nes ei fod wedi'i awdurdodi'n ffurfiol gan y

Senedd yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

## Enghraifft o linell amser hyblygrwydd diwedd blwyddyn




Nodir yn yr Adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2009-10,[17] yr :

> Bydd unrhyw HDB a dynnir i lawr yn 2008-09 yn digwydd drwy Amcangyfrif Atodol Seneddol y Gaeaf neu'r Gwanwyn, a chaiff ei ddyrannu i PGGau drwy Gynnig Atodol am y Gyllideb. Nid oes unrhyw arian wedi'i dynnu i lawr yn ystod y flwyddyn ariannol hon o'r stoc HDB sydd wedi'i chronni. Ond mae disgwyl i arian HDB gael ei ddefnyddio yn 2008-09 ac yn y dyfodol ar gyfer y strategaeth leoli (cyfalaf) ac amseroedd aros ym maes iechyd (adnoddau sydd bron yn arian parod).

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am hyblygrwydd diwedd blwyddyn, cysylltwch ag **Eleanor Roy**, yng Ngwasanaeth Ymchwil yr Aelodau (**Eleanor.Roy@Wales.gsi.Gov.UK**)

I gael rhagor o wybodaeth am y pynciau isod, dylech glicio ddwywaith ar y lincs a ganlyn:

- **Trysorlys Ei Mawrhydi, *Consolidated Budgeting Guidance 2009-10* (Chwefror 2009)**
- **Papur Gwyn Trysorlys Ei Mawrhydi, *Public Expenditure Outturn* (Gorffennaf 2008)**

Gellir gweld rhestr lawn o'n **hysbysiadau hwylus** yma.

**MRS09/09/0799/Eleanor Roy**

**Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF991NA neu anfonwch e-bost at MembersLibrary@cymru.gsi.gov.uk**

[17] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2009-10 (Hydref 2008) [ar 24 Chwefror 2009].